# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Mawrth, 1 Mehefin 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a/ac J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds a/ac D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
L Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.50 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. EFFAITH CREDYD CYNHWYSOL A COVID-19 AR ÔL-DDYLEDION RHENT

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL 2021-2024

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar fabwysiadu Strategaeth Trawsnewid Digidol ar gyfer y cyfnod 2021-2024. Nodwyd bod y Strategaeth, a fyddai'n disodli strategaeth 2017-20, yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf, roedd yn manylu ar flaenoriaethau a dyheadau digidol strategol y Cyngor ac yn amlinellu'r hyn yr oedd angen ei wneud i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddigidol dros y tair blynedd nesaf.

Nodwyd bod y Strategaeth yn rhoi eglurder ynghylch:-

- Y weledigaeth ddigidol ar gyfer Sir Gaerfyrddin
- Beth yw Strategaeth Trawsnewid Digidol
- Adeiladu Sylfeini Digidol yn Sir Gaerfyrddin
- Meysydd Blaenoriaeth allweddol
- Y prosiectau allweddol a'r deilliannau sydd i'w cyflawni
- Yr Adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth ddigidol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Strategaeth Trawsnewid Digidol 2021-2024.**

## 6. ACHREDIAD YMGYRCH Y RHUBAN GWYN

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch y Cyngor yn ymgeisio o'r newydd am achrediad gan Ymgyrch y Rhuban Gwyn i ddod â thrais gan ddynion yn erbyn menywod i ben. Nodwyd bod yr Achrediad blaenorol, a dderbyniwyd ym mis Awst 2018, bellach wedi dod i ben ac er mwyn adnewyddu'r achrediad roedd y Cyngor wedi paratoi Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno a chael ei gymeradwyo gan Ymgyrch y Rhuban Gwyn. Drwy gefnogi'r ymgyrch a chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, byddai'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â phob math o gam-drin a thrais, nid yn unig gan ddynion yn erbyn menywod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Cefnogi cais y Cyngor am statws y Rhuban Gwyn;**

**6.2 Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno i Ymgyrch y Rhuban Gwyn i sicrhau achrediad, gan ddangos ymrwymiad y Cyngor i ddod â thrais gan ddynion yn erbyn menywod i ben;**

**6.3 Cefnogi'r ymrwymiad a'r cyfranogiad sy'n ofynnol gan swyddogion ar draws y cyngor i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith.**

## 7. EFFAITH CREDYD CYNHWYSOL A COVID-19 AR ÔL-DDYLEDION RHENT

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar effaith Credyd Cynhwysol a Covid-19 ar ôl-ddyledion rhent Tai Cyngor. Nododd y Bwrdd mai nod yr adroddiad oedd:-

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid y Cyngor;
- amlinellu cynlluniau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i liniaru'r effaith a chefnogi tenantiaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- ceisio cymeradwyaeth i gynnal achos llys lle mae pob cam arall i ymgysylltu a chefnogi tenantiaethau wedi methu.

Roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai wedi tynnu sylw'r Bwrdd at lefel yr ôl-ddyledion rhent a nodwyd ar dudalen 65 yr adroddiad sef £1.537m ar ddiwedd

blwyddyn ariannol 2020/21, a dywedodd y dylid cywiro'r ffigur a nodi £1.193m, sef cynnydd o £69k o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2019/20.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 Nodi lefel bresennol yr ôl-ddyledion rhent ac effaith Credyd Cynhwysol a COVID-19;**

**7.2 Nodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i liniaru effeithiau Credyd Cynhwysol a COVID-19;**

**7.3 Cadarnhau y bydd y cymorth ariannol yn cael ei ymestyn o £100,000 i £200,000 i helpu tenantiaid sy'n cael anawsterau, lle mae COVID-19 a chaledi ariannol arall wedi effeithio ar eu hincwm;**

**7.4 Cadarnhau i ailgychwyn camau gorfodi a dechrau cychwyn achos llys lle mae pob dull arall o ymgysylltu a chefnogi tenantiaid wedi methu.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 10. DATBLYGIAD PRESWYL AR DIR YNG NGORLLEWIN CAERFYRDDIN

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 9 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch gwaredu tir sy’n eiddo i’r Cyngor yng Ngorllewin Caerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1. gymeradwyo gwaredu'r tir datblygu preswyl yng Ngorllewin Caerfyrddin drwy weithdrefn gaffael agored i alluogi darparu cynllun preswyl deiliadaeth gymysg.**

**10.2 Rhoi awdurdod dirprwyedig i Benaethiaid Adfywio a Chartrefi a**

**Chymunedau Mwy Diogel, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Bwrdd Gweithredol, i drafod a chofnodi telerau priodol ar gyfer gwerthu'r tir a chaffael y cartrefi rhent cymdeithasol ar ôl hynny**

______________________________
**CADEIRYDD**

________________________
**DYDDIAD**